

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Compton House,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 04 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 04 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	28
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	29

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis deintyddol Compton House, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 04 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i drin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod y practis yn ceisio cynnig triniaeth frys heb ei threfnu ar yr un diwrnod, a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan fydd angen un arnynt.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ym mhob rhan o'r practis, a gallai rhai o'r staff ddarparu triniaeth yn Gymraeg. Dywedodd y cleifion eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gosod bleinds ar ffenestri'r deintyddfeydd er mwyn cynnal urddas a phreifatrwydd y cleifion wedi'i iddi dywyllu.
- Arddangos rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn glir
- Ystyried sut y gellir darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill sy'n ystyried anghenion cleifion ag anawsterau darllen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Defnyddio porth ar-lein, sy'n galluogi cleifion i ddarparu gwybodaeth bersonol cyn eu hapwyntiad.
- Defnyddio 'taflen eithrio', sy'n galluogi cleifion i ddangos eu sefyllfa ariannol drwy gyfrwng dieiriau.
- Addasu'r golau'n briodol ar gyfer cleifion awtistig a niwrowahanol, drysau lliw i gleifion dyslecsig ac apwyntiadau yn hwyrach yn y dydd i'r henoed.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus ac wedi'i addurno i safon uchel.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith. Gwelsom mai dim ond un swyddog cymorth cyntaf penodedig sydd yn y practis ac, felly, nodwyd bod angen trefnu darpariaeth ychwanegol yn ar gyfer cyfnodau pan fydd yn absennol.

Gwelsom gydymffurfiaeth dda â rhagofalon diogelwch tân ond gwelsom fod angen symud arwydd allanfa dân er mwyn rhoi cyfarwyddiadau gwell ar wagio'r adeilad i gleifion pe bai tân.

Gwelsom nad oedd cofnodion y cleifion yn ddigon manwl ac nad oedd nifer o wiriadau wedi cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gosod arwyddion allanfa dân yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf
- Defnyddio'r rhestr wirio a argymhellir er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â pholisiau a gweithdrefnau radiograffeg a gwybodaeth i gleifion am risgiau a manteision pelydrau-X.
- Gweithdrefnau diogelu da a siartiau llif atgyfeirio ym mhob rhan o'r practis.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y rheolwr cofrestredig yn weladwy, a gwelsom linellau adrodd clir ar gyfer y staff a phractis a oedd yn cael ei redeg yn dda. Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu rolau gyda thystiolaeth o arfarniadau rheolaidd.

Gwelsom fod proses sefydlu dda ar waith mewn fformat a gydnabyddir gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain. Yn gyffredinol, gwelsom gydymffurfiaeth dda â rhwymedigaethau proffesiynol a hyfforddiant staff, er bod angen i rai aelodau o'r staff gwblhau hyfforddiant ar reoli heintiau a'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Dywedwyd wrthym y gellir defnyddio staff o chwaer bractis yn ystod unrhyw gyfnodau o brinder staff.

Gwelsom dystiolaeth o broses gwyno addas yn unol â pholisi'r practis, a bod addasiadau wedi'u gwneud o ganlyniad i adborth gan gleifion.

Er y gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau, roedd y practis y cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r staff gwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd
- Mae angen ailosod y blwch awgrymiadau yn yr ardal aros er mwyn annog y cleifion i roi adborth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod ganddo gydberthnasau da â gwasanaethau gofal iechyd lleol eraill
- Roedd amrywiaeth o bolisiâu ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu wrth eu gwaith
- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o archwiliadau ar waith ac roedd adnoddau hyfforddi gwella ansawdd yn cael eu defnyddio er mwyn ceisio gwella safonau'n barhaus.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 11 o ymatebwyr fod y practis naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'dda.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn wybodus, ac ar ôl ofni mynd at y deintydd ar hyd fy oes, does arna i ddim ofn mwyach, gan fod hyn yn rhoi tawelwch meddwl i mi."

"Rwyf wedi fy nghofrestru yma ers blynyddoedd, ac mae'r staff wedi mynd a dod ac mae'r gwasanaeth yn parhau. Mae'n dda dros ben. Mae'n broffesiynol, yn ddifyr ac yn ardderchog."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis.

Gwelsom doreth o wybodaeth i gleifion ym mhob rhan o'r practis, gan gynnwys risgiau a manteision pelydrau-X, canser y geg, mewnosodiadau ac argaenau. Gwelsom fod gwybodaeth am sut i wneud cwyn a rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat hefyd wedi'u harddangos.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei ddeall. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym hefyd fod y staff wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd da y geg.

Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Gofal Urddasol a Pharchus

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan fyddai'r deintyddion yn gweld cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom fod haen adlewyrchol ar ffenestri'r practis a oedd yn atal aelodau o'r cyhoedd rhag edrych i mewn i'r adeilad. Fodd bynnag, er bod hyn yn gweithio'n dda yn ystod oriau'r dydd, gwnaethom sylwi nad oedd yn gweithio cystal wedi iddi dywyllu, ac y gallai'r cyhoedd weld i mewn i'r practis.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod bleinds ar ffenestri'r deintyddfeydd er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a'r staff wedi iddi dywyllu.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Er bod y dderbynfa yn ardal agored yn ystafell aros y cleifion, mae porth ar-lein yn galluogi'r cleifion i ddarparu gwybodaeth bersonol cyn dod i'w hapwyntiad. Caiff yr holl wybodaeth a gofnodir ei storio'n ddiogel yn y cwmwl digidol. Roedd staff y dderbynfa yn deall bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd cleifion wrth ddelio â nhw a defnyddio 'taflen eithrio' sy'n galluogi cleifion i ddangos eu sefyllfa ariannol drwy gyfrwng ddieiriau. Dywedwyd wrthym y byddai deintyddfa segur yn cael ei defnyddio ar gyfer trafodaethau cyfrinachol neu sensitif.

Roedd egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn glir yn yr ardaloedd aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd enwau'r deintydd a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis i'w gweld yn glir, ond nid oedd eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr enwau a rhifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol eu harddangos mewn ardal y gellir eu gweld yn hawdd.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau/buddiannau a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

Dyweddod pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio meddalwedd sgwrsio byw sy'n rhybuddio staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Fel arall, byddai'r deintydd neu'r nyrsys deintyddol yn rhoi gwybod i gleifion pe bai oedi cyn iddynt gael eu gweld. Byddai'r cleifion yn cael cynnig aildrefnu eu hapwyntiad os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Ar hyn o bryd, mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn, neu drwy borth ar-lein.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn neilltuo slotiau apwyntiadau ar ôl 3:30pm i blant ysgol a'i fod ar agor bob nos Fawrth a bore dydd Sadwrn i gleifion na allant ddod yn ystod oriau arferol oherwydd ymrwymadau gwaith. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis yn cynnal clinigau gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn ystod gwyliau'r ysgol sy'n rhoi cyngor ar ddeiet a thriniaeth fflworid.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan gleifion pe bai angen gofal a thriniaeth brys arnynt y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion yr oedd angen gofal deintyddol brys arnynt ffonio'r dderbynfa a chael cynnig slot apwyntiad brys, a drefnir yn ystod y dydd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio rhestr aros ar fyr rybudd, sy'n golygu bod modd cynnig slotiau sydd ar gael i gleifion ar sail blaenoriaeth, a bennir yn ôl system goleuadau traffig.

Dyweddod pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, er bod dau yn anghytuno, gan ddweud nad oedd hynny'n hawdd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddent yn gwybod sut i gael gafaél ar wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys, ond unwaith eto, roedd tri yn anghytuno â hyn.

Dywedwyd wrthym fod cleifion fel arfer yn aros tua phythefnos neu dair wythnos rhwng pob apwyntiad ar gyfer triniaeth yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater ac argaeledd y deintydd.

Fodd bynnag, dywedodd un claf:

“Dyw staff y dderbynfa ddim yn bobl gyfeillgar, ac mae'n anodd iawn cael apwyntiad mewn argyfwng. Mae apwyntiadau ar gyfer triniaeth ddilynol a ddylai gael eu cynnal cyn gynted â phosibl yn cael eu cynnig fisoedd yn ddiweddarach. Mae negeseuon atgoffa ar gyfer archwiliadau arferol yn cael eu hanfon yn hwyr, ac wedyn does dim apwyntiadau ar gael am ddau neu dri mis.”

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrrio ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth mewn modd amserol.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom fod llawer o wybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y practis, gan gynnwys y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben. Gwelsom hefyd fod y practis wedi creu ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn yr ardal aros, yn cynnwys llawer o wybodaeth am driniaethau deintyddol eraill. Roedd llawer o'r wybodaeth hon hefyd yn ddwyieithog.

Dywedwyd wrthym fod dogfennau eraill wrthi'n cael eu cyfieithu. Gwelsom nad oedd unrhyw daflenni ar gael mewn fformatau eraill, fel hawdd eu deall neu ffont mawr, ond dywedwyd wrthym y gellid cael gafael ar y fformatau hyn yn hawdd gan y bwrdd iechyd lleol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion ag anawsterau darllen.

Gwelsom arwyddion yn y dderbynfa yn gwahodd cleifion i roi gwybod i'r staff pe baent am siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg ac yn gallu rhoi gofal yn Gymraeg os gofynnir am hynny.

Gwelsom fod system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith yr oedd pob aelod o'r staff wedi'i ddarllen ac yn cytuno ar ei gynnwys.

Dyweddodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Gwelsom fod mynediad gwastad o'r tu allan i ddefnyddwyr cadair olwyn a bod dwy ddeintyddfa wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, gan hwyluso triniaeth i gleifion â phroblemau symudedd. Nodwyd gennym fod toiled hygyrch i gleifion ar y llawr gwaelod.

Dywedwyd wrthym fod addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i'r practis er mwyn ystyried anghenion cleifion, gan gynnwys switshis i bylu'r goleuadau ar gadeiriau i gleifion awtistig a niwrowahanol, drysau lliw ar y deintyddfeydd i gleifion dyslecsig, ac apwyntiadau yn hwyrach yn y dydd i gleifion oedrannus.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch, ond roedd un yn teimlo mai dim ond rhannol hygyrch ydoedd, ac roedd un arall yn teimlo ei fod yn anniogel.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, a bod yr ystafelloedd trin yn fawr ac wedi'u goleuo'n dda. Roedd y deintyddfeydd wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Y tu mewn i'r practis, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda, ond nid oedd unrhyw bolisi ar gynnal a chadw'r adeilad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi cynnal a chadw'r adeilad ar waith er mwyn sicrhau bod y safle bob amser yn addas at y diben.

Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau fel cyfarpar yn methu, llifogydd neu os bydd y system yn methu. Cadarnhawyd bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau.

Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon. Gwelsom fod cyfleusterau i'r staff newid mewn preifatrwydd a bod loceri ar gael iddynt storio eu heitemau personol.

Gwelsom fod poster iechyd a diogelwch ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld.

Gwelsom fod asesiad risg tân wedi cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Gwelsom fod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar diogelwch tân a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. Gwelsom fod contract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol ar waith a bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod yr allanfeydd tân yn glir heb ddim yn eu rhwystro a bod arwyddion gwagio'r adeilad yn cael eu harddangos drwy'r safle. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw arwydd allanfa dân ar y llawr cyntaf. Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, a archebodd arwydd yn ystod yr arolygiad.

Aethpwyd i'r afael â'n pryder ynglŷn â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith i gefnogi arferion glanhau effeithiol.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC yn teimlo bod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân, ond roedd mân staeniau ar orchuddion ffabrig y seddau yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf, gan awgrymu nad oedd modd glanhau'r defnydd yn effeithiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig newid y gorchuddion defnydd a ddefnyddir ar y seddau yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf er mwyn sicrhau bod modd dilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau effeithiol.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff.

Roedd ystafell ddihalogi benodol gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Fodd bynnag, gwelsom fod y gosodiad sbring ar ddrws yr ystafell ddihalogi i'w gau'n awtomatig wedi torri, gan olygu bod drws yr ystafell ddihalogi ar agor ar wahanol adegau yn ystod ein harolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drwsio'r gosodiad sbring ar ddrws yr ystafell ddihalogi neu osod un newydd yn ei le, er mwyn sicrhau bod y drws yn cau'n awtomatig.

Cafodd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod dau awtoclaf ar gael, ond nid oedd un ohonynt yn cofnodi paramedrau'r cylchoedd dihalogi ac nid oedd unrhyw allbrintiau na chofnodion digidol ar gael. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau na chaiff yr awtoclaf hwn ei ddefnyddio hyd nes y caiff cofnodwr neu argraffydd ei osod. Cafodd awtoclaf newydd ei archebu, ei gyflenwi a'i osod yn ystod ein harolygiad.

Aethpwyd i'r afael â'n pryder ynglŷn â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fod yr archwiliad atal a rheoli heintiau diweddaraf wedi'i gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod gwastraff clinigol y practis yn cael ei storio mewn cynwysyddion priodol nes iddo gael ei gasglu a bod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo'r gwastraff yn ddiogel o'r practis. Er bod y biniau gwastraff clinigol wedi'u cloi, roeddent yn cael eu cadw'n anniogel o flaen y practis lle y gallai aelodau o'r cyhoedd gael gafael arnynt yn hawdd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y cynwysyddion gwastraff clinigol eu clymu'n sownd wrth yr adeilad.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant staff y practis a gwelsom nad oedd tri ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis, a bod meddyginiaethau'n cael eu trin a'u storio'n ddiogel. Gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau a roddir yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Hefyd, dywedwyd wrthym fod y practis yn gwaredu hen gyffuriau yn y fferyllfa leol, ond nid oedd unrhyw dderbynebau ar gael.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i roi cyfrif am yr holl feddyginiaethau heb eu defnyddio a waredir yn y fferyllfa a darparu manylion y system honno i AGIC.

Dywedwyd wrthym y byddai digwyddiadau andwyol yn ymwneud â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi mewn llyfr damweiniau ac y byddai'r Ymarferydd Cyffredinol yn cael gwybod amdanynt. Cynghorwyd rheolwr y practis y dylai gyfarwyddo staff y practis i roi gwybod am adweithiau andwyol drwy'r cynllun Cerdyn Meddwl.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Cawsom wybod y gallai cleifion wneud cais amdano.

Gwnaethom arolygu cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Gwelwyd bod y meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Roedd system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y bydd angen cael meddyginiaethau newydd. Gwelsom hefyd fod cofnodion gwiriadau wedi'u cwblhau, a'u bod yn cadarnhau bod pob meddyginiaeth o fewn ei dyddiad defnyddio. Er bod Midazolam ar gael fel rhan o'r pecyn cyffuriau brys, gwelsom nad oedd dosau cywir ohono ar gael i gleifion o bob oedran.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y dosau cywir o gyffuriau brys ar gael i gleifion o bob oedran.

Hefyd, gwelsom nad oedd y pecyn cyfarpar brys yn cynnwys llwybr anadlu oroffaryngeaidd maint 0, bag hunanchwyddo â chronfa ocsigen i blentyn, na masgiau wyneb clir. Archebodd y rheolwr cofrestredig rai newydd ar adeg yr arolygiad.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i gynnal gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfarpar brys gofynnol bob amser ar gael, a darparu tystiolaeth bod hyn wedi'i gwblhau i AGIC.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf ar gael ac yn drefnus yr olwg. Gwelsom fod un swyddog cymorth cyntaf penodedig hyfforddedig yn y practis, ond nid oedd neb i gyflenwi yn ei absenoldeb.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff unigolyn ychwanegol ei hyfforddi a'i benodi'n swyddog ymateb cymorth cyntaf.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o staff y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond roedd dau aelod o'r staff nad oeddent wedi gwneud hynny.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddadebru, a darparu tystiolaeth bod hyn wedi'i gwblhau i AGIC.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â diogelu ac roedd manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau diogelu lleol ar gael i'r

staff pe bai pryder. Gwelsom fod siart lif diogelu ym mhob deintyddfa er mwyn helpu'r staff pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn wybodus am ddiogelu, ac roedd gan reolwr y practis a'r arweinydd diogelu ap Diogelu Cymru Gyfan ar eu ffonau er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaeth a gofal deintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X. Gwelsom hefyd ddogfennaeth a oedd yn dangos bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw ac wedi cael y profion gofynnol a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith. Gwelsom fod rheolau lleol ar gael ym mhob deintyddfa.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfarpar pelydr-x, wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros yn egluro'r risgiau a'r buddiannau o gael archwiliad pelydr-X.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir i leihau'r risg o dynnu'r dannedd anghywir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y defnyddir y rhestrau gwirio a argymhellir i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion y Cleifion

Gwelsom fod system briodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Gwelsom fod polisi a phrosesau cyson ar waith i

gynnal hawliau cleifion heb alluedd. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol deg claf. Roedd yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys dynodyddion cleifion addas, a hanes deintyddol blaenorol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr hanes meddygol cychwynol wedi cael ei lofnodi gan y cleifion na'r deintyddion ac, ar dri achlysur, nid oedd unrhyw gofnodion i ddangos bod hanes meddygol diwygiedig wedi cael ei wirio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hanes deintyddol cleifion, ac unrhyw hanes meddygol perthnasol arall, ei wirio a'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion bob amser.

Nodwyd hefyd nad oedd cynllun triniaeth, archwiliad y tu allan a'r tu mewn i'r geg, cyngor ar ddeiet a hylendid y geg, y mathau o ddeunyddiau a ddefnyddiwyd, faint o anesthetig lleol a ddefnyddiwyd, achosion o alw'n ôl a graddio pelydr-X, cyfiawnhad na chanfyddiadau bob amser wedi'u cofnodi. Gwelsom fod angen cofnodi mwy o wybodaeth am opsiynau triniaeth ac nad oedd y cynlluniau triniaeth bob amser yn cael eu llofnodi. Dylid rhoi cyngor ar roi'r gorau i smygu, a'i gofnodi, lle bo angen. Gwelsom nad oedd cofnod un o'r cleifion yn cynnwys cofnod o archwiliad, trafodaeth am y driniaeth a'r manylion, na faint o anesthetig a ddefnyddiwyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob asesiad, y broses cynllunio triniaeth a'r driniaeth a roddwyd eu cofnodi mewn modd dealladwy a chywir yng nghofnodion y cleifion bob amser.

O blith y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom nad oedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi cael ei gofnodi mewn dau gofnod, ac nad oedd dewis iaith y claf wedi cael ei gofnodi yn yr un o'r cofnodion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad ar sail gwybodaeth ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion yn ystod pob ymweliad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith cleifion ei gofnodi yng nghofnodion cleifion.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roddent yn ei wneud yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff wedi ateb eu cwestiynau.

Effeithlon

Effeithlon

Clywsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod clinigau gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar gael i roi cyngor i gleifion ar hylendid y geg.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau'n cael eu gwirio'n wythnosol a bod rheolwr y practis yn mynd i'r afael ag atgyfeiriadau a wrthodwyd.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a bod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon gyda gofal deintyddol brys yn cael ei gynnal o amgylch apwyntiadau arferol wedi'u trefnu ymlaen llaw.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith. Roedd dau reolwr practis yn eu swyddi a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Cafodd y trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm o staff y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff a chyfathrebu wyneb yn wyneb ad hoc â'r staff, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater. Gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cymryd a'u rhannu ag aelodau o staff a oedd yn absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Roedd y sampl o bolisiau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi'u cymeradwyo gan staff a wnaeth gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Adolygwyd y ddwy ddogfen yn ystod y 12 mis diwethaf.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd gan bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn dilyn y fformat a argymhellir gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r practis a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff hefyd yn cael eu cynnal a'u bod yn gyfredol.

Gwelsom fod rota'r gweithlu yn cael ei baratoi dair neu bedair wythnos ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod nifer y staff a'u cymysgedd sgiliau yn briodol i ddarparu'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn y chwe deintyddfa. Dywedwyd wrthym na fyddai staff dros dro na staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, ac y byddai staff o chwaer bractis yn cael eu defnyddio pe bai prinder staff oherwydd gwyliau a salwch.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn talu ffi gofrestru'r staff nyrsio â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i fod yn monitro'r tîm deintyddol cyfan er mwyn sicrhau bod cofrestriadau'n cael eu cynnal a'u bod yn gyfredol.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael yn y practis i gynghori'r staff pe bai'r angen yn codi. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn agored ac yn hawdd mynd atynt, a bod polisi drws agored yn amlwg.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practisau deintyddol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff sy'n gweithio yn y practis, Gwelsom fod gan bob aelod o'r staff dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys a (lle y bo'n ofynnol), dystiolaeth o yswiriant indemniad a thystiolaeth o imiwneiddiadau.

Gwelsom fod y staff yn cael hyfforddiant gorfodol drwy lwyfan ar-lein cydnabyddedig, a bod cofnodion hyfforddiant lleol yn cael eu cadw yn y swyddfa. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Fodd bynnag, gwelsom fod hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei glustnodi i'r staff ond nad oeddent wedi ei gwblhau eto.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd, a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Disgrifiwyd gwahanol drefniadau ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis, gan gynnwys holiaduron, negeseuon e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedwyd wrthym yr arferai fod blwch awgrymiadau yn ardal aros y cleifion, ond bod hwn wedi cael ei dynnu yn ystod pandemig COVID-19.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ailgyflwyno'r blwch awgrymiadau er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth dienw i'r practis.

Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei asesu, ei ddadansoddi a'i drafod yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cydnabod adborth, a thystiolaeth o gamau a gymerwyd i ymateb i adborth, fel gosod rheseli beiciau o flaen yr adeilad ac apwyntiadau hirach ar gyfer ymgynghoriadau.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar waith er mwyn rheoli cwynion am y gofal deintyddol a ddarperir yn y practis. Roedd hon i'w gweld yn yr ardaloedd aros ac roedd yn cynnwys manylion y rheolwr cwynion ac yn nodi'r amserlen ymateb ddisgwyliedig. Roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt am help a chymorth hefyd wedi'u cynnwys. Gwelsom hefyd bosteri Gweithio i Wella yn cael eu harddangos.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth, ond roedd dau ymatebydd yn anghytuno â hyn.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi ar system TG y practis a bod y broses ddatrys yn cael ei dogfennu drwyddi draw. Gwelsom dystiolaeth o'r broses hon mewn perthynas â'r gŵyn ddiweddaraf a ddaeth i law'r practis.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd polisi ar gyfer Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau a'u Rheoli ar waith, a oedd yn disgrifio system i gofnodi digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion. Roedd hefyd yn cynnwys canllawiau a chyfrifoldebau'r staff mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Byddai digwyddiadau o bwys a gwybodaeth am ddiogelwch cleifion yn cael eu cofnodi a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm, a byddai'r staff yn cael gwybod ar unwaith am unrhyw faterion brys drwy'r cyfryngau cymdeithasol mewnol.

Hyd yma, nid oes unrhyw ddigwyddiad lle mae Dyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei arfer.

Dyweddwyd wrthym fod y practis yn cynnal archwiliad a dadansoddiad blynyddol o'r gwasanaeth drwy becyn cymorth yr Hunanasesiad Sicrwydd Ansawdd i bractisau deintyddol ledled Cymru.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Cawsom enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o gardiau cofnodi, archwiliadau o radiograffau, archwiliadau amgylcheddol ac archwiliadau o ddata a gwybodaeth yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cwblhau archwiliadau rhagnodi meddyginiaethau

gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i smygu drwy adnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac archwiliad CAPRO o brosesau rhagnodi gwrthfotigau.

Gwelsom fod y practis wedi defnyddio adnoddau hyfforddi gwella ansawdd fel Cynllun Gwên a'r Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET).

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd unrhyw arwydd allanfa dân ar y llawr cyntaf.	Gallai'r cleifion fod mewn perygl am fod diffyg cyfarwyddiadau ar wagio'r adeilad pe bai tân yn y practis	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Archebodd y rheolwr cofrestredig arwydd newydd.
Nid oedd y pecyn cyfarpar brys yn cynnwys llwybr anadlu oroffaryngeaidd maint 0, bag hunanchwyddo â chronfa ocsigen i blentyn, na masgiau wyneb clir.	Ni allem fod yn sicr y gellid eu defnyddio'n effeithiol mewn argyfwng.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Rhai newydd yn cael eu harchebu gan y rheolwr cofrestredig.
Gwelsom nad oedd un o'r awtoclafau'n cofnodi paramedrau'r cylchoedd dihalogi	Ni allem gadarnhau bod y cyfarpar yn cyflawni'r broses ddihalogi yn gywir.	Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau na chaiff yr awtoclaf hwn	Archebodd y rheolwr cofrestredig awtoclaf newydd a chafodd ei gyflenwi a'i osod yn ystod yr arolygiad.

ac nad oedd unrhyw allbrintiau na chofnodion digidol ar gael.		ei ddefnyddio hyd nes y caiff cofnodwr neu argraffydd ei osod.	
---	--	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Compton House

Dyddiad yr arolygiad: 04 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol pellach ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn, heblaw am y rhai a nodwyd yn Atodiad A.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Compton House

Dyddiad yr arolygiad: 04 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom fod haen adlewyrchol ar y ffenestri a oedd yn atal y cyhoedd rhag edrych i mewn i'r adeilad yn ystod oriau'r dydd, ond nid oedd hyn yn effeithiol wedi iddi dywyllu.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod bleinds ar ffenestri'r deintyddfeydd er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a'r staff gyda'r nos.	Rheoliad 15 (1) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Prynu a gosod bleinds	Ann	Wedi'i gwblhau 5/12/23
Gwelsom fod enwau gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol y practis yn cael eu harddangos, ond nid oedd eu rhifau cofrestru	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr enwau a rhifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol eu	Safon Ansawdd - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Arddangos pob enw a rhif cofrestru ar hysbysfwrdd y cyntedd	Ann	Wedi'i gwblhau 7/11/23

â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld.	harddangos mewn ardal y gellir eu gweld yn hawdd				
Gwelsom fod rhywfaint o'r adborth a gafwyd gan gleifion yn nodi nad oedd hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth mewn modd amserol.	Safon Ansawdd - Amserol	Cwblhau archwiliad cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd	Lisa	3 mis
Nodwyd gennym nad oedd taflenni gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, megis hawdd eu deall neu ffont mawr, a oedd yn ystyried anghenion y cleifion ag anawsterau darllen.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion ag anawsterau darllen.	Safon Ansawdd - Teg	Taflenni ffont mawr, hawdd eu darllen yn ffolder y practis	Lisa	5/12/23
Gwelsom nad oedd unrhyw bolisi ar gynnal a chadw'r adeilad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi cynnal a chadw'r adeilad ar waith er mwyn sicrhau bod y safle bob amser yn addas at y diben.	Rheoliad 8 (1)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Caiff ei gwblhau'n fisol ers mis Hydref a'i gadw mewn ffeil cynnal a chadw yn y swyddfa	Ann	5/12/23

<p>Gwelsom fod mân staeniai ar orchuddion ffabrig y seddau yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf, gan awgrymu nad oedd modd glanhau'r defnydd yn effeithiol.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig newid y gorchuddion defnydd a ddefnyddir ar y seddau yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf er mwyn sicrhau bod modd dilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau effeithiol</p>	<p>Regulation 13(6)(b)(iii) - The Private Dentistry (Wales) Regulations 2017.</p>	<p>Prynu a gosod cadeiriau plastig</p>	<p>Ann</p>	<p>5/10/23</p>
<p>Gwelsom fod y gosodiad sbring ar ddrws yr ystafell ddihalogi i'w gau'n awtomatig wedi torri, gan olygu bod y drws yr ystafell ddihalogi ar agor yn barhaus.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drwsio'r gosodiad sbring ar ddrws yr ystafell ddihalogi neu osod un newydd yn ei le, er mwyn sicrhau bod y drws yn cau'n awtomatig</p>	<p>Rheoliad 22(2)(b) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Gosod arwydd ar ddrws yr ystafell ddihalogi yn atgoffa'r staff i'w gau, a hyfforddi'r staff i ddilyn yr arwydd.</p>	<p>Ann</p>	<p>5/12/23</p>
<p>Roedd biniau gwastraff clinigol wedi'u cloi yn cael eu cadw o flaen y practis, ond nid oeddent wedi'u gosod yn sownd, gan olygu y gallai aelodau o'r cyhoedd gael gafael arnynt yn hawdd.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y cynwysyddion gwastraff clinigol eu clymu'n sownd wrth yr adeilad.</p>	<p>Safon Ansawdd - Diogel</p>	<p>Prynu a gosod cadwyn a chlo.</p>	<p>Ann</p>	<p>11/10/23</p>

Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau.	Rheoliad 17 (3)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017).	Wedi'i gwblhau a'i ddogfennu.	Lisa	5/12/23
Dywedwyd wrthym fod y practis yn gwaredu hen gyffuriau yn y fferyllfa leol, ond nid oedd unrhyw dderbynebaw ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i roi cyfrif am yr holl feddyginiaethau heb eu defnyddio a waredir yn y fferyllfa a darparu manylion y system honno i AGIC.	Rheoliad 13 (4)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017).	Mae polisi derbynebaw ar waith ac yn cael ei ddefnyddio a'i ffeilio yn y ffeil cymorth cyntaf.	Lisa	3/11/23
Nid oedd y dosau cywir o Midazolam ar gael i gleifion o bob oedran fel rhan o'r pecyn cyffuriau brys.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y dosau cywir o gyffuriau brys ar gael i gleifion o bob oedran.	Rheoliad 13(4)(b) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae chwistrell/pot ar gael yn y blwch cyffuriau brys ynghyd â chyfarwyddiadau clir ac argymhellion o ran dosau i gleifion o bob oedran, ac mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant	Lisa	5/12/23
Gwelsom nad oedd y pecyn cyfarpar brys yn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i gynnal	Rheoliad 31(3)(b) - Rheoliadau	Wedi'u prynu ac ar waith;	Ann	5/12/23

<p>cynnwys llwybr anadlu oroffaryngeaidd maint 0, bag hunanchwyddo â chronfa ocsigen i blentyn, na masgiau wyneb clir</p>	<p>gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfarpar brys gofynnol bob amser ar gael, a darparu tystiolaeth bod hyn wedi'i gwblhau i AGIC.</p>	<p>Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>mae rhestr wirio o gyfarpar ar waith ac yn cael ei defnyddio i wirio'r cyffuriau meddygol/blwch cymorth cyntaf bob wythnos</p>		
<p>Gwelsom fod un swyddog cymorth cyntaf penodedig hyfforddedig yn y practis, ond nad oedd neb i gyflenwi yn ei absenoldeb.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff unigolyn ychwanegol ei hyfforddi a'i benodi'n swyddog ymateb cymorth cyntaf.</p>	<p>Rheoliad 8(q) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Catherine Jenkins Ail swyddog cymorth cyntaf Cwrs wedi'i gwblhau</p>	<p>Cath</p>	<p>17/11/23</p>
<p>Gwelsom nad oedd rhai o staff y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddadebru, a darparu tystiolaeth bod hyn wedi'i gwblhau i AGIC.</p>	<p>Rheoliad 31(3)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017).</p>	<p>Trefnu hyfforddiant CPR drwy Postgrad</p>	<p>Ann</p>	<p>3 mis</p>
<p>Gwelsom nad oedd y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir i leihau'r</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y defnyddir y rhestrau gwirio a argymhellir</p>	<p>Safon Ansawdd - Effeithiol</p>	<p>Gosod dogfen 1000 o Fywydau/LocSSIP yn y chwe deintyddfa</p>	<p>Ann</p>	<p>5/12/23</p>

risg o dynnu'r dannedd anghywir.	i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.				
Gwelsom nad oedd hanes meddygol cychwynnol wedi cael ei lofnodi a bod tri chofnod nad oeddent yn cynnwys cofnodion i ddangos bod hanes meddygol diwygiedig wedi cael ei wirio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hanes deintyddol cleifion, ac unrhyw hanes meddygol perthnasol arall, ei gofnodi bob amser.	Rheoliad 20(1)(a)(ii) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Rydym yn gweithio gyda Dentally i unioni'r sefyllfa hon; i'w gynnwys yr archwiliad o gofnodion	Anwen/Lisa	3 mis
Gwelsom nifer o hepgoriadau yn y sampl o gofnodion, gan gynnwys diffyg cofnodion o asesiadau a phrosesau cynllunio triniaeth.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob asesiad, y broses cynllunio triniaeth a'r driniaeth a roddwyd eu cofnodi mewn modd dealladwy a chywir yng nghofnodion y cleifion bob amser.	Rheoliad 20(1)(a)(i) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Cwblhau archwiliad o gardiau cofnodi	Lisa	3 mis
Gwelsom nad oedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi cael ei gofnodi mewn dau gofnod.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad ar sail gwybodaeth ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion yn ystod pob ymweliad.	Rheoliad 13(9)(d) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Symud y blwch ticio i frig y dudalen a chynnwys archwiliad yn yr archwiliad o gardiau cofnodi	Lisa	3 mis

<p>Gwelsom nad oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion, a allai ei gwneud hi'n anodd darparu gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith cleifion ei gofnodi yng nghofnodion cleifion</p>	<p>Rheoliad 13 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017).</p>	<p>Er bod hyn yn un o'r cwestiynau a ofynnir fel rhan o'r broses o gofnodi hanes meddygol ar y clinipad, rydym yn gweithio gyda Dentally i'w gofnodi yn ffeiliau'r cleifion a bydd hyn yn cael ei wirio fel rhan o archwiliad</p>	<p>Anwen / Lisa</p>	<p>3 mis</p>
<p>Gwelsom nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant o Ddyletswydd Gonestrwydd.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd, a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.</p>	<p>Rheoliad 8 (2)(a) - Hyfforddiant a Chymorth - Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023</p>	<p>Wedi'i gwblhau gan bob aelod o'r staff a'i wirio</p>	<p>Lisa</p>	<p>5/12/23</p>
<p>Gwelsom fod y blwch awgrymiadau wedi cael ei dynnu o ardal aros y cleifion yn ystod pandemig COVID. Gall</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ailgyflwyno'r blwch awgrymiadau er mwyn</p>	<p>Rheoliad 16(2)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Blwch newydd y gellir ei gloi wedi'i brynu a'i osod. Yn y dderbynfa</p>	<p>Ann</p>	<p>5/12/23</p>

hyn atal cleifion sy'n dymuno aros yn ddiennw rhag rhoi adborth.	galluogi'r cleifion i roi adborth diennw i'r practis				
---	---	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ann Collins

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 05/12/23